

Pub is the Hub Case Study

GLAN LLYN, CLAWDDNEWYDD, DERWEN, DENBIGHSHIRE



Mae tafarn Glan Llyn yng Nghlawddnewydd, pentref o tua 500 o bobl yng nghymuned [Derwen](#), Sir Ddinbych.

Mae canolfan gymunedol yn y pentref (Canolfan Cae Cymro) a siop gymunedol (Siop y Fro) a agorwyd yn 2001. Trigolion y pentref sydd berchen ar ac sy'n gofalu am y siop a'r ganolfan. Cae Cymro ydy enw'r cae cyfagos ble mae Clwb Pêl-droed [Clawddnewydd](#) yn chwarae eu gemau cartref yng Nghynghrair Haf Llandyrnog a'r dalgylch.

Aeth tafarn Glan Llyn i law'r derbynnydd ym mis Mai 2013 a chyhoeddwyd hyn wrth y cyhoedd ym mis Medi 2013. Penderfynodd pobl y pentref sefydlu criw i geisio prynu a gofalu am y dafarn fel prosiect cymunedol. Galwon nhw gyfarfod ddechrau mis Hydref a gosod targed o £180,000 i'w godi er mwyn prynu ac adnewyddu'r dafarn.

Erbyn mis Rhagfyr 2013, prin ddeng wythnos yn ddiweddarach, roedd cymdeithas bentref Antur Cae Cymro wedi cyrraedd ei tharged. Roedd y criw wedi codi £90,000 yn y gymuned ac wedi cael benthyciad o £90,000 gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cymru. Cytunwyd ar bris prynu o £137,500 gyda'r banc a'r derbynnyddion a chwblhawyd y prynu fis Rhagfyr.

Dechreuwyd gwaith adnewyddu ar y dafarn ac ail osodwyd y bar yn ôl yn ei safle gwreiddiol, ar ôl ei symud dros y blynnyddoedd. Gosodwyd platfform pren ar flaen y dafarn, a gwnaethpwyd defnydd o hen seler a man byw wrth eu troi yn far chwaraeon newydd (gyda bwrdd pwl a bwrdd dartiau).

Yn y dyfodol, maen nhw'n bwriadu adnewyddu'r gegin yn gyfan gwbl a rhoi offer, topiau, rhewgelloedd, offer ffrïo a grilio newydd sbon ynddi. Bydd hyn yn golygu y gall tîm Glan Llyn gyflogi cogydd llawn amser. Maen nhw wedi gwario £40,000 ar waith adnewyddu hyd yn hyn, ac wedi codi £24,000 ychwanegol ar gyfer gwella'r dafarn eto, drwy elw'r dafarn a gweithgareddau codi arian.

Mae tua 20 gwirfoddolwr yn gofalu am dafarn Glan Llyn o ddydd i ddydd. Maen nhw'n gwneud y gwaith archebu, y cyfrifon, gosod rota'r gweithwyr a'r arlwy. Mae gweithwyr y bar yn derbyn cyflog ac o bryd i'w gilydd mae rhai o'r gwirfoddolwyr yn helpu y tu ôl i'r bar hefyd. Mae gan y gwirfoddolwyr sgiliau a chefnidiroedd amrywiol, megis gweithwyr swyddfa a ffermwyr, ac maen nhw i gyd yn bobl y pentref.

Mae tua 30 o bobl yn dod am ginio dydd Sul yn y dafarn fel rheol ond gall y nifer fod hyd at 60. Mae'r criw yn gobeithio datblygu ar hyn pan fydd y gegin wedi ei hadnewyddu a chogydd llawn amser yn gweithio yno.

Mae'r dafarn wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan y bobl leol, ac mae'r criw yn bwriadu dal ati i godi arian. Bu dwy ŵyl yn y dafarn i godi arian ar gyfer gwaith adnewyddu, a bydd gŵyl arall ym mis Rhagfyr 2014.

Ariannu'r Prosiect

£7,500 fel grant gan Cadwyn Clwyd
£2,500 gan Glan Llyn.

LICENSEE CONTACT:

TEL:

PUB OWNER:

Gwawr Evans

01824 750754

Antur Cae Cymro Village Association

I wybod mwy, cysylltwch â ni ar 01423 546165 neu anfonwch e-bost at enquiries@pubisthehub.org.uk